# Taith y Defnyddiwr

## Dod o Hyd i Bolisi

Mae modd i ddefnyddwyr ddod o hyd i bolisïau mewn dwy ffordd:




**Enghreifftiau:**

| Mae'r defnyddiwr yn chwilio am | Mae'r system yn dychwelyd |
|---|---|
| salwch | Polisi Rheoli Absenoldeb |
| AI | Polisi Defnydd Derbyniol Deallusrwydd Artiffisial |
| gweithio gartref | Polisi Gweithio Hybrid |
| bwlio | Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu |
| diogelu | Polisi Diogelu Corfforaethol |

## Categoriadau Polisi

| | |
|---|---|
| Digidol, TG, a Seiberddiogelwch | Polisïau a chanllawiau sy'n eich helpu chi i ddefnyddio technolegau ac adnoddau cyfathrebu digidol mewn modd diogel ac effeithiol yn y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys rheolau mewn perthynas â defnydd derbyniol o Dechnoleg Gwybodaeth, deallusrwydd artiffisial (AI), y cyfryngau cymdeithasol, gweithio hybrid a hyblyg, yn ogystal â dyletswyddau gweithwyr o ran seiberddiogelwch, diogelu data, a diogelu gwybodaeth sefydliadol. |
| Polisïau a Chanllawiau sy'n ystyriol o Deuluoedd | Polisïau a chanllawiau sy'n eich helpu chi i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a'r gwaith, gan gynnwys gwyliau/absenoldebau, gweithio hyblyg a hybrid, lles, a dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r teulu. |
| Iechyd, Diogelwch a Lles | Polisïau a chanllawiau sy'n hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles, gan gynnwys rheoli peryglon, arferion gwaith diogel, iechyd galwedigaethol, a lles yn y gweithle. |
| Dysgu a Datblygu | Polisïau a chanllawiau ar gyfer dysgu a datblygu, gan gynnwys ymsefydlu, hyfforddiant, prentisiaethau, a chyfleoedd datblygu gyrfa a dysgu parhaus. |
| Cyflogau, Buddion a Chynlluniau Cyflogaeth | Polisïau a chanllawiau sy'n ymwneud â chyflogaeth, buddion a chymorth gyrfa, gan gynnwys taliadau, lwfansau, treuliau, cynlluniau gwyliau/absenoldebau, opsiynau o ran ymddeol, a buddion i weithwyr. |

| | |
|---|---|
| Pobl a Chyflogaeth | Polisïau a chanllawiau sy’n ymwneud â chylch bywyd gweithwyr, gan gynwys recriwtio, ymddygiad, cyflawniad, presenoldeb, cydraddoldeb, gwyliau/absenoldebau, cymorth yn y gweithle, a datblygiad gyrfa. |
| Diogelu a Chynhwysiant | Polisïau a chanllawiau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a lles, gan gynnwys diogelu, addasiadau rhesymol, ymddygiad parchus a rhoi gwybod am bryderon. |
| Eich Swydd a'ch Amodau Gwaith | Polisïau a chanllawiau sy’n ymwneud â threfniadau gwaith a disgwyliadau yn y gweithle, gan gynnwys oriau gwaith, newid sefydliadol, teithio ar gyfer gwaith, a materion ymarferol eraill sy’n ymwneud â chyflogaeth. |

# Siart Llif y Broses Newydd ar gyfer Adolygu a Newid Polisïau



**<u>Rhestr Wirio</u>**

Cyn cwblhau'r ffurflen adolygu:

**Adolygu'r Polisi**

- Mae'r Gweithgor Polisïau wedi adolygu'r polisi.
- Mae deddfwriaethau cyfredol wedi cael eu hystyried.
- Mae gofynion sefydliadol wedi'u gwirio.
- Mae dogfennau cysylltiedig wedi cael eu hadolygu.
- Mae'r Polisi yn parhau i fod yn addas i'r diben.
- Cytunwyd ar ganlyniad yr adolygiad.

**Os nad oes angen newidiadau**

- Mae modd i mi gadarnhau bod y polisi'n parhau i fod yn ddilys.
- Mae'r dyddiad adolygu wedi'i gofnodi.

**Rhestr Wirio Diweddaru Polisi**

Os oes angen fersiwn newydd:

**Cyn Cyflwyno**

- Rhaid sicrhau bod pob diwygiad wedi'i gwblhau.
- Rhaid sicrhau bod y fersiwn Saesneg derfynol wedi'i chymeradwyo.
- Rhaid sicrhau bod y fersiwn Gymraeg derfynol wedi'i chymeradwyo.
- Rhaid sicrhau cymeradwyaeth y Garfan Adnoddau Dynol/ Uwch Reolwyr y Cyngor / Undebau Llafur (os oes angen).
- Rhaid sicrhau bod y dogfennau cysylltiedig wedi'u hadolygu.
- Rhaid sicrhau bod y fersiwn flaenorol wedi'i nodi.
- Teitl y polisi wedi'i gadarnhau.

**Gofynion Lanlwytho**

- Polisi Saesneg wedi'i lanlwytho.
- Polisi Cymraeg wedi'i lanlwytho.
- Dogfennau cysylltiedig wedi'u lanlwytho
- Polisi cywir wedi'i ddewis.

- Y broses gyflwyno wedi’i chwblhau

**Rhestr Wirio'r Garfan Datblygu Pobl**

**Adeg derbyn y Polisi**

- Adolygu’r broses gyflwyno
- Dilysu teitl y polisi.
- Sicrhau bod fersiwn Saesneg wedi'i darparu.
- Sicrhau bod fersiwn Gymraeg wedi'i darparu.
- Cymeradwyaeth wedi'i chadarnhau.
- Dogfennau perthnasol wedi'u hatodi.

**Diweddaru RCT Source**

- Polisi wedi'i lanlwytho.
- Fersiwn flaenorol wedi'i harchifo.
- Categorïau wedi'u nodi.
- Allweddeiriau chwilio wedi'u nodi.
- Dyddiad yr adolygiad wedi'i ddiweddaru.
- Dogfennau perthnasol wedi'u cysylltu.

**Cyhoeddi**

- Polisi i'w weld yn y categorïau cywir.
- Mae’r adnodd chwilio’n gweithio.
- Trefniadau rheoli fersiynau wedi'u diweddaru.
- Polisi wedi'i gyhoeddi.